

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr, Practis
Deintyddol Rhos Road**

04 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o Bractis Deintyddol Rhos Road, 55 Rhos Road, Llandrillo-yn-Rhos, LL28 4RY, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 4 Awst 2015. Cymerodd Integrated Dental Holdings (IDH) berchnogaeth o'r practis ym mis Chwefror 2013.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Rhos Road yn darparu gwasanaethau i tua 3,000 o gleifion yn Llandrillo-yn-Rhos a'r cylch yng Nghonwy. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Rhos Road yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Integrated Dental Holdings (IDH), sy'n rhedeg y practis, wrthi'n ailfrandio o dan yr enw 'mydentist'. Nid oedd y broses hon wedi'i chwblhau eto ar gyfer cangen Rhos Road.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, tri hylenydd, pum nyrs ddeintyddol, dau dderbynnnydd, ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau rheolaidd a sganiau pelydr-X
- Llenwadau
- Coronau a dannedd gosod
- Gwaith pontydd
- Deintyddiaeth gosmetig, gan gynnwys mewnbaniadau ac argaenau
- Cyngor ataliol a chyngor ar hylendid y geg

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd mae Practis Deintyddol Rhos Road yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Yn gyffredinol, roedd y cleifion a wnaeth ymateb i'n holiadur yn fodlon ar y staff a'r wybodaeth a dderbyniwyd ynglŷn â thriniaethau deintyddol, ond roedd pob un ohonynt wedi profi oedi cyn gweld deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Ychwanegwyd sylwadau eraill gan sawl claf arall, a oedd yn dangos bod oedi parhaus yn effeithio ar ba mor fodlon oeddent ar y gwasanaeth yn gyffredinol. Rydym wedi cynghori'r practis, felly, i ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i wella'r sefyllfa hon.

Ar adeg ein harolygiad, gwelsom nad oedd rhai o'r wybodaeth ar y daflen gwybodaeth i gleifion a'r wefan yn gyfredol. Nid oedd y rhestr o brisiau'n cynnwys yr holl wasanaethau deintyddol preifat a gynigir i gleifion ar hyn o bryd. Felly mae angen cymryd camau gweithredu ar fyrder i sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i'r cleifion yn gyfredol.

Yn gyffredinol, canfuom fod systemau boddhaol ar waith i gynnal cyfarpar, i ymateb i achosion brys meddygol posibl, ac i waredu ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai canllawiau'n cael eu dilyn ym mhob rhan o'r broses ddadheintio (glanhau a sterileiddio). Rydym wedi cynnwys, felly, y gwelliannau sydd eu hangen i'r arferion a'r cyfleusterau clinigol yn gyffredinol, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd cofnodion dau o'r deintyddion yn foddhaol yn gyffredinol, ond gwnaethom nodi bod angen i'r deintydd arall wella. Rydym wedi cynghori IDH i adolygu eu system archwilio cofnodion er mwyn i unrhyw ddiffygion gael eu nodi a'u cywiro'n gyflym.

Gwelsom fod strwythur rheolaeth effeithiol ar waith er mwyn darparu gofal sydd wedi'i bersonoli ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad roedd yna faterion busnes heb eu datrys rhwng IDH a'r perchnogion blaenorol. Roedd hyn yn cael effaith ar yr aelodau staff o ran symud ymlaen, a gallai'r sefyllfa hon effeithio ar ofal y cleifion os nad yw'n cael ei datrys. Rydym wedi cynghori IDH, felly, i fonitro'r sefyllfa'n agos er mwyn sicrhau nad yw'n gwaethygu.

Canfuom fod yr amgylchedd yn gyffredinol yn hygyrch, yn ddiogel, yn lân, ac mewn cyflwr da.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn gyffredinol, roedd y cleifion a wnaeth ymateb i'n holiadur yn fodlon ar y staff a'r wybodaeth a dderbyniwyd ynglŷn â thriniaethau deintyddol, ond roedd pob un ohonynt wedi profi oedi cyn gweld deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Ychwanegwyd sylwadau eraill gan sawl claf arall, a oedd yn dangos bod oedi parhaus yn effeithio ar ba mor fodlon oeddent ar y gwasanaeth yn gyffredinol. Rydym wedi cynghori'r practis, felly, i ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i wella'r sefyllfa hon.

Ar adeg ein harolygiad, gwelsom nad oedd rhai o'r wybodaeth ar y daflen gwybodaeth i gleifion a'r wefan yn gyfredol. Nid oedd y rhestr o brisiau'n cynnwys yr holl wasanaethau deintyddol preifat a gynigir i gleifion ar hyn o bryd. Felly mae angen cymryd camau gweithredu ar fyrder i sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i'r cleifion yn gyfredol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom dderbyn 12 o holiaduron AGIC wedi eu cwblhau. Cadarnhaodd y cleifion i gyd fod tîm y practis fel arfer yn estyn croeso iddynt, ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu triniaeth. Fodd bynnag, roedd pob un o'r cleifion wedi profi oedi wrth gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Er bod sawl claf wedi gwneud sylwadau ynglŷn â pha mor gyfeillgar a pharod eu cymwynas oedd y staff, neu wedi dweud bod y gwasanaethau o safon uchel, gwnaethant hefyd sylwadau ynglŷn â'r oedi cyson, gan ddweud, er enghraifft:

“Mae gorfod aros i weld un clinigydd yn gallu bod yn rhwystredig iawn ar adegau, ond fel arall mae'r driniaeth a'r gwasanaeth yn ardderchog.”

“Mae'r oedi'n fy ngwylltio, oherwydd mae'n fy ngwneud i'n hwyr i'r gwaith. ... Mae cadw at yr amser yn broblem fawr/mae cadw'r cleifion yn aros yn amhroffesiynol.”

“Prin rydw i'n cael fy ngweld ar amser.”

Gwnaeth dau o'r cleifion sylwadau ynglŷn â'u hapwyntiadau'n cael eu canslo, ac un ohonynt ar rybudd byr iawn. Ond dywedodd un o'r cleifion ei fod yn fodlon ar bopeth, gan ddweud:

“Nid yw fy mhrofiad i wedi bod yn un amhleserus erioed. Mae'r practis wedi'i drefnu'n dda, gyda llawer o gylchgronau i'w darllen wrth aros, ac mae'r seddi mor gyfforddus ag y gallai fod. Fel y dywedais, yn fy marn i,

mae lefel y gwasanaeth o safon uchel, ac rydw i'n fodlon iawn ar bopeth."

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r rheolwyr cymorth clinigol a datblygu'r ardal am y sylwadau hyn. Fe'n hysbyswyd bod y rhaglen "Six Month Smiles" (sef gwasanaeth sydd ar gael i oedolion i sythu ac alinio eu dannedd) wedi cael ei chyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn, a'i bod wedi arwain at rai apwyntiadau'n rhedeg yn hirach na'r disgwyl. Fodd bynnag, roedd gan un deintydd hanes o broblemau o ran cadw amser. Fe'n hysbyswyd bod cyfathrebu parhaus rhwng IDH a'r deintydd dan sylw, a oedd yn cynnwys rhoi pwyslais ar gadw amser.

Yr hyn sydd angen ei wella

Yng ngoleuni adborth gan gleifion ynglŷn ag oedi dro ar ôl tro, dylid ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i wella'r sefyllfa, ac i osgoi straen neu bryder diangen i'r cleifion.

O'n trafodaethau â'r staff, canfuom fod pryderon neu gwynion a nodwyd gan y cleifion yn cael eu cofnodi ar nodiadau'r cleifion. Roedd y cleifion hefyd yn cael cynnig cyfle i gyflwyno'r rhain yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o'r sylwadau cyffredinol a wnaed, a fyddai'n helpu'r practis i nodi ac ystyried camau y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw bethau y mae pryderon neu gwynion yn codi yn eu cylch yn aml. Cytunodd y derbynnydd a rheolwr y practis i weithredu system ar unwaith. .

Nid oedd pump o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur yn gwybod sut i wneud cwyn. Er inni weld bod gwybodaeth am y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn yr ystafelloedd aros, gwnaeth un o'r cleifion a welsom yn ystod y dydd sylw am y nifer fawr o hysbysiadau a oedd wedi eu harddangos. Roedd dau wahanol fath o weithdrefn gwyno: y naill ar gyfer cleifion y GIG, a'r llall ar gyfer cleifion eraill a oedd yn talu o dan drefniadau preifat. Fodd bynnag, ni ellir gwahaniaethu rhyngddynt drwy ddarllen y gweithdrefnau.

Gwnaethom awgrymu, felly, y dylai'r wybodaeth sy'n gyffredin gael ei grwpio gyda'i gilydd er mwyn ei gwneud yn haws i'r cleifion ddod o hyd iddi, ac y dylai'r practis nodi pa weithdrefn sy'n ymwneud â chwynion ar gyfer triniaethau deintyddol y GIG a pha un sy'n ymwneud â thriniaethau a ddarperir o dan drefniadau preifat.

Gwelsom fod gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a gwefan. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesegol gan nad oedd yn gywir nac yn gyfredol. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth am IDH na'r deintydd mwyaf diweddar a ymunodd â'r tîm ym mis Ebrill 2015. Roedd y wybodaeth ar y wefan yn awgrymu bod Practis Deintyddol Rhos Road yn dal i gael ei redeg gan y perchnogion/deintyddion blaenorol, er bod IDH wedi cymryd awenau'r busnes ers mis Medi 2013. Ar y cyfan, felly, nid oedd y wybodaeth ysgrifenedig yn gywir, ac roedd yn gamarweiniol felly.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cymryd camau ar unwaith i sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i'r cleifion yn gyfredol ac yn gywir. Yn hyn o beth, dylai IDH ystyried 'Egwyddorion Hysbysebu'n Foesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod y ffioedd a godir ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat wedi eu harddangos yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys yr holl wasanaethau preifat sydd ar gael, ac felly cytunodd rheolwr y practis i ychwanegu at y rhestr hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r ffioedd am wasanaethau gynnwys yr holl driniaethau deintyddol preifat a gynigir yn y practis.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Yn gyffredinol, canfuom fod systemau boddhaol ar waith i gynnal cyfarpar, i ymateb i achosion brys meddygol posibl, ac i waredu ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai canllawiau'n cael eu dilyn ym mhob rhan o'r broses ddadheintio (glanhau a sterileiddio). Rydym wedi cynnwys, felly, y gwelliannau sydd eu hangen i'r arferion a'r cyfleusterau clinigol yn gyffredinol, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd cofnodion dau o'r deintyddion yn foddhaol ar y cyfan, ond gwnaethom nodi bod angen i'r deintydd arall wella. Rydym wedi cynghori IDH i adolygu eu system archwilio cofnodion er mwyn i unrhyw ddiffygion gael eu nodi a'u cywiro'n gyflym.

Gwnaeth ein hadolygiad o gofnodion hyfforddiant nodi bod hyfforddiant radiograffeg ac amddiffyn rhag ymbelydredd y staff perthnasol yn gyfredol, yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Yn ystod ein harolygiad, gwnaeth y staff waith dilynol ar y cofnodion diwethaf ynglŷn â gwasanaethu'r cyfarpar pelydr-X, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion wedi eu cwblhau. Gan fod rhywfaint o ansicrwydd o hyd, trefnodd rheolwr y practis i beiriannydd cynnal a chadw ymweld â'r practis y diwrnod trannoeth, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael sylw. Gwnaethom atgoffa'r staff y dylai'r rheolau lleol⁴ ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth perthnasol gael eu diweddarau yn unol â hynny, pe bai angen.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion gwastraff peryglus wedi eu storio'n ddiogel ar safle'r practis.

Roedd gan y practis yr offer perthnasol a'r feddyginiaeth sydd eu hangen mewn argyfwng. Gwelsom fod yr eitemau hyn wedi eu storio'n ddiogel o fewn yr adeilad, a bod systemau ar waith i fonitro eu dyddiad dod i ben.

⁴ Mae gofyn i bob practis deintyddol a chanddo gyfarpar radiograffig (pelydr-X) lunio set o "reolau lleol". Mae'r rhain yn nodi'r holl arferion gwaith y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau arferion gwaith diogel wrth weithio gydag ymbelydredd, a chydymffurfiaeth â'r amryw reoliadau sy'n rheoli ymbelydredd ym maes deintyddiaeth.

Gwnaethom ystyried y broses ddadheintio (ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol). Yn gyffredinol, roedd y cyfleusterau a'r prosesau'n foddhaol, ond gwnaethom gynghori y dylai'r gwelliannau canlynol gael eu hystyried er mwyn gwella safonau, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae defnyddio dŵr ar gyfer dyfrhau yn well na defnyddio dŵr distylledig, gan na ellir bod yn sicr o ansawdd dŵr distylledig.

Dylid cael arwyddion mwy clir i ddangos parthau brwnt a pharthau glân yn yr ystafell ddadheintio.

Dylid defnyddio peiriannau wal gyda chetris untro sy'n cyflenwi hylif golchi dwylo, a dylid cadw'r ffroenell yn lân.

Roedd gwiriadau ar awtoclafau (offer sterileiddio) yn cael eu gwneud bob dydd, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fodd bynnag, ar un diwrnod yn ystod yr wythnos, gwelsom fod y gwiriadau'n cael eu gwneud tua hanner awr ar ôl apwyntiad y claf cyntaf. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid cynnal y gwiriadau hyn cyn apwyntiad cyntaf y dydd, er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn cyn i unrhyw gleifion gael eu gweld.

Yr hyn sydd angen ei wella

Ni ddylid defnyddio awtoclafau nes i'r gwiriadau dyddiol a'r tasgau cadw tŷ gael eu cwblhau, ac nes y gwelir bod y canlyniadau'n foddhaol (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 4.21).

Gwelsom fod yr argraffydd ar un o'r awtoclafau wedi torri, ac nad oedd gan y naill neu'r llall o'r ddau awtoclaf gofnodydd data awtomataidd (i gofnodi effeithiolrwydd y cylchred sterileiddio). Nid oedd yn bosibl, felly, olrhain offer wedi eu sterileiddio i gylchred penodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 4.3, yn argymhell y dylid cadw cofnodion ar gyfer pob cylchred sterileiddio. Dylai'r practis, felly, gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â'r argymhelliad hwn.

Cynhelid profion actifedd uwchsonig (er mwyn sicrhau bod y glanhawyr uwchsonig yn gweithio'n effeithiol), ac eithrio profion ffoil. Fodd bynnag, mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cydnabod mai defnyddio

stribedi ffoil drwy'r tanc i gyd yw'r dull mwyaf darbodus y gellir ei ddefnyddio eto ac eto at y diben hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal profion actifedd uwchsonig chwarterol, gan gynnwys profion ffoil, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 3.29, pennod 14.

Fe'n hysbyswyd bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer un o'r nyrsys a ddaeth yn gyfrifol am y broses ddadheintio yn ddiweddar. Dylid cymryd y gwelliannau a nodir uchod i ystyriaeth fel rhan o ddysgu a datblygiad yr aelodau staff.

Gwnaethom edrych ar gyfanswm o 20 o gofnodion cleifion, gan samplu o leiaf tri fesul deintydd a hylenydd. Gwelsom fod yr holl gleifion wedi derbyn cynllun triniaeth. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r ymarferwyr yn cadw cofnod rheolaidd o p'un a oedd y cleifion wedi cydsynio i driniaeth. Nid oedd gan un o'r deintyddion y gwnaethom siarad ag ef ddealltwriaeth glir o gasglu cydsyniad cleifion o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Hefyd, nid oedd y deintydd yn ymwybodol o ddull '*Delivering Better Oral Health*' Iechyd Cyhoeddus Lloegr a chanllawiau ailalw deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai deintyddion sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu'r rheoliadau a'r canllawiau cyfredol, megis y Ddeddf Galluedd Meddyliol, *Delivering Better Oral Health*, a chanllawiau ailalw NICE.

Dylai'r holl ymarferwyr fod yn cadw cofnod o p'un a yw claf wedi cydsynio i'w driniaeth.

Roedd cofnodion un o'r deintyddion yn anghyson, ac nid oedd yn cyrraedd y safonau. Er enghraifft, nid oedd hanesion cymdeithasol a deintyddol y cleifion yn cael eu cofnodi'n gyson, ac nid oedd tystiolaeth bod sgrinio ar gyfer canser wedi cael ei esbonio. Nid oedd y canfyddiadau clinigol a'r gwaith graddio radiograffau yn cael eu cofnodi, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Canfuom hefyd nad oedd radiograff wedi'i wneud ar ôl triniaeth y dylid cymryd radiograff ar ei ôl.

Gwnaethom edrych ar y ddau archwiliad clinigol diwethaf a gynhaliwyd (o fewn y chwe mis diwethaf), a gwelsom fod yr unig fwlc a welwyd yng nghofnodion y

deintydd yn ymwneud â diweddarau hanesion meddygol cleifion. Gan nad oedd y deintydd yn bresennol, gwnaethom drafod y diffygion hyn ag un o'r rheolwyr o IDH a rheolwr y practis, a gytunodd i ymdrin â'r materion hyn â'r deintydd dan sylw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Roedd cofnodion un o'r deintyddion yn anghyson, ac mae angen eu gwella, ar y cyfan.

Dylai IDH ddatblygu system archwilio fwy cadarn ar gyfer cofnodion clinigol, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiffygion o ran y ddarpariaeth gwasanaethau neu gadw cofnodion yn cael eu nodi, ac y gweithredir i wella'r safonau a'r cysondeb rhwng ymarferwyr.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheolaeth effeithiol ar waith er mwyn darparu gofal sydd wedi'i bersonoli ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd yna faterion busnes heb eu datrys rhwng IDH a'r perchnogion blaenorol. Roedd hyn yn cael effaith ar yr aelodau staff o ran symud ymlaen, a gallai'r sefyllfa hon effeithio ar ofal y cleifion os nad yw'n cael ei datrys. Rydym wedi cynghori IDH, felly, i fonitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau nad yw'n gwaethygu.

Daeth Practis Deintyddol Rhos Road i feddiant IDH ym mis Chwefror 2013. Ers hynny, penodwyd rheolwr practis, ac, ar y cyfan, gwelsom fod systemau a gweithdrefnau cadarn ar waith i reoli'r practis yn effeithiol. Roedd nyrs arwain hefyd, a phrif dderbynnydd a oedd yn helpu i wneud tasgau gweinyddol a oedd yn gysylltiedig â'i swydd. Roedd y rheolwyr a welsom yn ystod yr arolygiad yn awyddus i roi ystyriaeth i'n hawgrymiadau ynglŷn â sut i wella.

Gwelsom fod staff yn cael cymorth drwy gael cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant mewnol a thrwy bolisiau a gweithdrefnau IDH. Cynhaliwyd chwe arfarniad gydag aelodau staff unigol yn ystod y chwe mis diwethaf. Lle roedd yn briodol, gwelsom fod polisiau wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â'r practis, a bod y staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi eu darllen. Gwnaethom awgrymu y dylid ychwanegu colofn arall i'r ffurflen lofnodi, i gynnwys y dyddiad yr oedd yr aelodau staff unigol wedi'i llofnodi. Roedd bwletinau staff, newyddlenni a chofnodion cyfarfodydd wedi eu harddangos yn yr ystafell staff.

O'n trafodaethau ag amryw aelodau staff, roedd yn amlwg nad oedd rhai o'r materion busnes rhwng y perchnogion blaenorol ac IDH wedi eu datrys i raddau boddhaol a'u bod yn barhaus. Roedd hyn yn cael effaith ar ddatblygiad yr aelodau staff, ac ar y gallu i symud ymlaen. Gwnaethom gynghori IDH, felly, i ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i atal y sefyllfa rhag gwaethygu a chael effaith bosibl ar ofal y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai IDH ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i roi cymorth ychwanegol i aelodau staff tra bod trafodaethau â pherchnogion blaenorol y practis yn parhau. Dylai'r sefyllfa gael ei monitro'n agos yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar y staff ac ar ofal y cleifion.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan un o'r deintyddion dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis, a gytunodd i sicrhau y bydd yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu

gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol.

Nid yw'n orfodol i staff y practis feddu ar dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol ar y deintydd sy'n cyflogi i wirio bod staff yn addas i'w cyflogi. Gwelsom fod IDH wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl aelodau staff eraill.

Roedd gan bob un o'r tri deintydd dystysgrif gofrestru ddilys gydag AGIC. Fodd bynnag, gwelsom fod gan un o'r deintyddion y dystysgrif flaenorol a oedd wedi dod i ben wedi'i harddangos yn yr ystafell driniaeth. Gwnaethom ei gynghori y dylid cael gwared ar y fersiwn hon.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y gwelir tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Canfuom fod yr amgylchedd yn gyffredinol yn hygyrch, yn ddiogel, yn lân, ac mewn cyflwr da.

Adeilad tŷ pâr wedi'i drosi yw Practis Deintyddol Rhos Road, ger pentref masnachol Llandrillo-yn-Rhos. Roedd ramp yn arwain i fyny at y drws ffrynt, ac roedd ramp symudol wedi'i leoli wrth y grisyn yn y cyntedd, sy'n ei wneud yn hygyrch i bobl mewn cadair olwyn. Nid oes gan y practis leoedd parcio neilltuedig ar gyfer y staff na'r cleifion, ond gwelsom fod lle i barcio ar y stryd gerllaw, a bod meysydd parcio cyhoeddus yn Llandrillo-yn-Rhos, sydd o fewn pellter cerdded i'r practis.

Mae un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear. Gwelsom fod yr holl ddeintyddion yn rhannu'r ystafell hon yn ôl amserlen, er mwyn gallu gweld cleifion nad ydynt yn gallu defnyddio'r grisiau. Roedd yr enghraifft hon o arferion da yn golygu bod cleifion yn gallu parhau i weld eu deintydd arferol.

Roedd gweddill y llawr daear yn cynnwys ystafell aros, toiled i'r cleifion (a oedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn), a'r dderbynfa. Roedd dwy ystafell driniaeth arall, ystafell ddadheintio, ystafell staff, dwy swyddfa, toiled i staff, ac ystafell aros fach ar y llawr cyntaf.

Roedd yr holl fannau a welsom i'w gweld yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd tystiolaeth o arferion a gweithdrefnau da ar gyfer rheoli heintiau, ac roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cynhyrchion glanhau wedi eu codio â lliw er mwyn osgoi'r risg o groes-heintio.

Cedwid cofnodion y cleifion ar ffurf electronig, ac roedd copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system gyfrifiadurol bob dydd. Gwelsom fod cofnodion cyfrinachol eraill yn cael eu storio mewn cypyrddau dan glo.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Rhos Road yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Rhos Road, 55 Rhos Road, Llandrillo-yn-Rhos, LL28 4RY

Dyddiad yr arolygiad: 04 Awst 2015

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
7	<i>Yng ngoleuni adborth gan gleifion ynglŷn ag oedi dro ar ôl tro, dylid ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i wella'r sefyllfa, ac i osgoi straen neu bryder diangen i'r cleifion.</i> [Safonau Iechyd a Gofal 4.1 a 5.1]	Mae hyn yn ganlyniad i golli aelod o staff. Rydym bellach yn recriwtio er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o staff i reoli'r practis ac i leihau oedi yn y dderbynfa ac wrth drin pobl.	Rheolwr y Practis/GDP	Diwedd mis Hydref
8	<i>Dylid cymryd camau ar unwaith i sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i'r cleifion yn gyfredol ac yn gywir. Yn hyn o beth, dylai IDH ystyried</i>	Mae'r holl bosteri a gwybodaeth i gleifion yn cael eu diwedddaru.	Rheolwr y Practis	Diwedd mis Medi

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>'Egwyddorion Hysbysebu'n Foesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</i> <i>[Safonau lechyd a Gofal 3.2, 3.4 a 4.2]</i>			
8	<i>Dylai'r ffioedd am wasanaethau gynnwys yr holl driniaethau deintyddol preifat a gynigir yn y practis.</i> <i>[Safonau lechyd a Gofal 3.2, 3.4 a 4.2]</i>	Mae'r rhain yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd.	Rheolwr y Practis	Diwedd mis Medi
Cyflenwi Safonau lechyd a Gofal				
10	<i>Canllawiau dadheintio Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05:</i> <i>Mae defnyddio dŵr ar gyfer dyfrhau yn well na defnyddio dŵr distylledig, gan na ellir bod yn sicr o ansawdd dŵr distylledig.</i> <i>Dylid cael arwyddion mwy clir i ddangos parthau brwnt a pharthau glân yn yr ystafell ddadheintio.</i> <i>Dylid defnyddio peiriannau wal gyda</i>	 Mae dŵr distylledig yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Rydym yn trafod systemau gwrthdroi osmosis gyda'r adran gydymffurfio. Mae'r rhain yn cael eu newid a'u gwneud yn gliriach.	Rheolwr y Practis/Arweinydd Dadheintio	Hydref

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>chetris untro sy'n cyflenwi hylif golchi dwylo, a dylid cadw'r ffroenell yn lân.</i> [Safon Iechyd a Gofal 2.4]	Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu fel rhan o'r gwaith ailfrandio.	Tîm ailfrandio	Tachwedd
10	<i>Ni ddylid defnyddio awtoclafau nes i'r gwiriadau dyddiol a'r tasgau cadw tŷ gael eu cwblhau, ac nes y gwelir bod y canlyniadau'n foddhaol (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 4.21).</i> [Safon Iechyd a Gofal 2.9]	Mae hyn bellach yn cael ei wneud cyn y claf cyntaf.	Nyrsys/Rheolwr y Practis i wirio	Cwblhawyd
10	<i>Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 4.3, yn argymhell y dylid cadw cofnodion ar gyfer pob cylchred sterileiddio. Dylai'r practis, felly, gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â'r argymhelliad hwn.</i> [Safon Iechyd a Gofal 2.9]	Rydym wedi gofyn am gofnodydd data.	Canolfan gymorth	Hydref
11	<i>Cynnal profion actifedd uwchsonig chwarterol, gan gynnwys profion ffoil, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adran 3.29, pennod 14.</i> [Safon Iechyd a Gofal 2.9]	Rydym bellach wedi darparu hyfforddiant i'r arweinydd dadheintio, a bydd y profion hyn bellach yn cael eu cwblhau'n fisol.	Arweinydd dadheintio	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	<i>Dylai deintyddion sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu'r rheoliadau a'r canllawiau cyfredol, megis y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Delivering Better Oral Health, a chanllawiau ailalw NICE.</i> <i>Dylai'r holl ymarferwyr fod yn cadw cofnod o p'un a yw claf wedi cydsynio i'w driniaeth.</i> [Safonau Iechyd a Gofal 3.1, 3.2 a 7.1]	Mae canllawiau ailalw NICE bellach yn cael eu pennu. Hysbyswyd y deintyddion am ba mor bwysig yw nodi cydsyniad cleifion yn y nodiadau, yn ogystal â chael cynllun triniaeth wedi'i lofnodi.	GDP/RHEOLWR Y PRACTIS I WIRIO	Cwblhawyd
12	<i>Roedd cofnodion un o'r deintyddion yn anghyson, ac mae angen eu gwella, ar y cyfan.</i> <i>Dylai IDH ddatblygu system archwilio fwy cadarn ar gyfer cofnodion clinigol, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiffygion o ran y ddarpariaeth gwasanaethau neu gadw cofnodion yn cael eu nodi, ac y gweithredir i wella'r safonau a'r cysondeb rhwng ymarferwyr.</i> [Safon Iechyd a Gofal 3.5 a 7.1]	Bydd archwiliadau o'r cofnodion yn cael eu cwblhau bob dau fis am y chwe mis nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol.	Rheolwr y Practis	Yn parhau
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
13	<i>Dylai IDH ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i roi cymorth ychwanegol i aelodau staff tra bod trafodaethau â pherchnogion blaenorol y practis yn parhau. Dylai'r sefyllfa gael ei monitro'n agos yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar y staff ac ar ofal y cleifion.</i> [Safon Iechyd a Gofal: Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd a 7.1]	Mae rheolwr y practis wedi trafod datrys y materion presennol â'r perchnogion blaenorol. Maent wedi cytuno i gydweithio er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol. Bydd recriwtio staff yn lleihau baich gwaith y staff presennol, ac felly bydd hyn yn lleihau'r lefelau straen.	Rheolwr y practis/gdp/recriwtio	Cwblhawyd
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	Dd/B			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Krystina Cross

Teitl: Rheolwr

Dyddiad:

15/09/2015